# Cenn@d

MAI 22 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 169

## Cyfle i weddïo drwy'r Salmau






Ers canrifoedd bu Llyfr y Salmau yn gyfrwng cysur ac ysbrydoliaeth i laweroedd. Dwi'n siŵr fod nifer ohonom wedi dysgu'r salmau ar ein cof, ac wedi cael bendith a nerth wrth eu dwyn i gof. Yn ogystal, cafwyd casgliad o emynau Cymraeg yn seiliedig ar y salmau, yn nodedig gan Edmwnd Prys. Ac yn fwy diweddar cawsom gampwaith yng nghyfrol Gwynn ap Gwilym, *Salmau Cân*, a roddodd i ni 150 o emynau gan ddilyn pob un o'r salmau fel ysbrydoliaeth.

Yn Saesneg, cafwyd nifer o gyfrolau gweddi yn ogystal, yn ein harwain drwy bob salm yn ei thro. Ond, hyd y gwyddom, ni chafwyd casgliad Cymraeg o weddïau ar yr holl salmau – tan rŵan! Ers nifer o flynyddoedd bu'r Parchedig Euros Jones Evans wrthi'n ddiwyd iawn yn paratoi cyfrol arbennig. Ac fe welodd y gyfrol hon, sef *Gweddïo'r Salmau,* olau dydd mewn cyfarfod lansio a gynhaliwyd yng Nghapel Providence, Llangadog, nos Wener, 3 Mai.



Braf oedd wedi gweld llond capel wedi dod ynghyd, yn deulu a ffrindiau – rhai wedi teithio o ogledd a gorllewin Cymru ac o Loegr ar gyfer yr achlysur. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch. Aled Davies, ar ran y cyhoeddwyr, Cyhoeddiadau'r Gair, gan estyn croeso i bawb. Cyflwynodd gopi o'r gyfrol i'r awdur, a braf oedd clywed gan Euros ei hun, a rannodd ei stori ffydd â ni, a'i alwad i'r weinidogaeth. Nododd ei bod yn union hanner can mlynedd ers iddo ddechrau pregethu. Aeth ymlaen i sôn am y gyfrol, a gwerth defnyddio salm i bwrpas gweddi. Diolchodd Aled iddo am ei gymwynas fawr yn mynd ati i baratoi'r casgliad cyflawn o weddïau ar y salmau, gan sôn am y fendith y byddai hynny'n ei ddwyn i gynifer o addolwyr dros Gymru gyfan.

Cawsom flas o'r gyfrol wrth i Eiry Wyn Bellis, merch Euros, ac yna'r Parchedigion Rhys Locke a Gwilym Wyn Roberts ddod ymlaen i ddarllen gweddi yr un, yn seiliedig ar Salmau 1, 103 a 71. Wedi eu plethu rhwng y gwahanol gyfraniadau cafwyd eitemau cerddorol myfyrdodol: gan Ioan, ŵyr i Euros; gan y ddeuawd Beti a Siân o'r grŵp Perlau Taf gynt; ac yna gan gôr meibion Bois y Castell o dan arweinyddiaeth Nia Clwyd – côr y bu Euros ei hun yn aelod ohono am 15 mlynedd.



Roedd yn lansiad defosiynol iawn, a thystiodd nifer i'r awyrgylch arbennig yn y capel. Wedi cyhoeddi'r fendith fe'n gwahoddwyd i gyd i fwynhau lluniaeth helaeth wedi ei baratoi gan Gegin Fach y Wlad.

Mae'r gyfrol bellach ar gael yn eich siop lyfrau Gymraeg leol, pris £14.99.

A Rocha yn ymweld â Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro
**Tudalen 3**

Tearfund Cymru – diwedd cyfnod
**Tudalen 4**

Rhyfel Gaza – ydyn ni ar fai?
**Tudalen 5**

**Dyma un o'r gweddïau o'r casgliad, yn seiliedig ar Salm 23:**

**Gweddi Salm 23**

Gweddi Gynulleidfaol
Awdur: Dafydd
Thema: Yma mae Duw yn cael ei ystyried fel bugail gofalus ei braidd. Ef yw ein hunig obaith am fywyd tragwyddol a diogelwch. Gweddi sy'n diolch i'r Arglwydd am y cyfan hyn yw hon. Addas ar gyfer angladd.

Ein Tad nefol, gallwn ddweud gyda'r salmydd,
'Yr Arglwydd yw fy mugail,
ni bydd eisiau arnaf.'
Ti, y grym mwyaf sy'n bod;
ti y Gwaredwr,
ti yw gofalwr personol bob un ohonom;
ti sy'n edrych ar ôl ein holl anghenion beunyddiol.

Rwyt ti'n sicrhau
y cawn ran yn y pethau da a wnei drosom.
Mewn byd sy'n llawn straen a lludded,
rwyt ti wedi trefnu cyfnodau
lle gallwn orwedd a gorffwyso.

Ar adegau fel hyn,
pâr inni fwrw ein meddyliau'n gyfan gwbl arnat ti;
pâr inni ddarllen dy air sanctaidd,
ac i'th addoli mewn ysbryd a gwirionedd
er mwyn inni gael ein diwallu yn ysbrydol.
Adfywia ni, O Arglwydd;
adfer ni,
a chyfanna ein heneidiau drylliedig.

Pan dueddwn i grwydro oddi ar y llwybr
yr wyt ti'n dymuno inni ei gerdded,
gofynnwn am dy arweiniad i'n cadw ar y ffordd iawn.
Gwyddom fod dy gymeriad a'th enw da di
yn dibynnu arnom ni.

Gwyddost, O Arglwydd,
am gyfnodau anodd yn ein bywydau
pan fyddwn yn cerdded ar hyd llwybrau tywyll,
ond diolchwn y gall y sawl sy'n ymddiried ynot
gael y sicrwydd o'th ofal;
y sicrwydd o'th gwmnïaeth,
a'r addewid o'th bresenoldeb
fel y gallwn ddweud yn hyderus,
'nid ofnaf niwed,
canys rwyt ti gyda mi,
dy wialen a'th ffon a'm cysura.'
Yn wir wrth orfod teithio'r llwybr olaf unig,
bydd dy law yn ein cynnal
ac yn dileu ein hofnau.

Boed inni ddal gafael yn y gobaith a'r addewid
y byddi'n paratoi gwledd inni
yn nydd 'priodas yr Oen'.
Diolch mai yn enw Iesu Grist,
Bugail mawr ein heneidiau,
y cawn ein gwahodd;
diolch mai'r rhai sy'n dal tystiolaeth Iesu Grist
yw'r gwahoddedigion.
Felly, O Arglwydd,
dyro inni'r awydd i'th addoli'n fwy ffyddlon nag erioed,
fel y gallwn breswylio 'yn nhŷ'r Arglwydd yn dragywydd'.
AMEN

# Encil y Weinidogaeth Iacháu – Cymdeithasfa'r Gogledd



Hyfryd oedd teithio hyd lonydd culion Trefaldwyn yn nhes y gwanwyn fore Sadwrn, 20 Ebrill, a chael croeso twymgalon a phaned gan y chwiorydd yng Nghanolfan Rhiwlas, ger Rhydycroesau, lle mae'r neuadd gymuned yn cael ei defnyddio i addoli yn ogystal â chymdeithasu. Mawr oedd ein braint o gael eu cwmni drwy'r dydd.

Cawsom groeso gan ein Llywydd, Arthur Rowlands, a soniodd am golli Trebor Roberts, Llansannan, a fu, gyda'i wraig, Glenys, a'i deulu, yn asgwrn cefn i'r weinidogaeth dros y blynyddoedd. Cafwyd ymddiheuriadau gan sawl un o'n selogion oedd yn methu mynychu, a chroesawyd nifer o wynebau newydd i'r encil. Soniwyd am yr Ysgol Haf fydd yn cael ei chynnal yng nghanolfan Cefn Lea, Dolfor, 20–23ain Mai, ac estynnwyd gwahoddiad twymgalon inni ei mynychu.

Fe'n harweiniwyd mewn defosiwn a mawl gan D. Wyn Davies, o'r Rhiwlas, a osododd naws fyfyrgar a hamddenol i'r dydd, a chodi ein heneidiau gyda gair ac emyn. Yna, daeth y Parch. J. Gwyndaf Richards i roi arweiniad inni ar sail feiblaidd y weinidogaeth iacháu. Ymdriniodd â'r holl wyrthiau iachusol sydd wedi eu cofnodi yn yr Efengylau. Roedd yn amlwg wedi paratoi'n drylwyr ac fe wnaeth hoelio sylw'r gynulleidfa â'i arddull ddirodres. Fe'n synnwyd gan amrywiaeth yr arlwy a'r iachâd a geid yn gorfforol, yn feddyliol ac yn gymdeithasol, ac at ddawn ein Gwaredwr.

Dros ginio cafwyd cyfle i gymdeithasu a phwyllgora, a threfnu lleoliadau ein hencil yn y dyfodol.

Y Parch. Diane Stirling Jones a'n harweiniodd ddechrau'r prynhawn i eiriol a gweddïo dros y gweiniaid. Cyflwynodd yr aelodau enwau eu cydnabod oedd angen llesâd, a gorffennwyd y sesiwn â gweddi am iachâd rhwng cenhedloedd yn ein byd toredig.

Wedi egwyl fer, fe wnaeth y Parch. John Owen ein gwahodd at fwrdd y cymun. Pwysleisiodd mai gwahoddiad oedd yn ganolog wrth fwrdd y Swper Olaf yn yr oruwchystafell yn Jerwsalem. Gwahoddiad i gofio oedd hwnnw: 'Gwnewch hyn er cof amdana i'. Gwahoddiad i deulu ydoedd, a gwahoddiad i wledd o gariad. Mor bwysig oedd cof yn y cyfnod hwnnw. Mae gennym gymhorthion o bob math i'n helpu i gofio. Heb y gallu i gofio, â gwall yn y cof, mae bywyd yn mynd ar chwâl. Wrth gofio, rydyn ni'n ymuno efo Cristnogion ddoe a heddiw. A thrwy hynny, cawn fodd i drosglwyddo'r cof am Iesu a'i gariad i genhedlaeth arall. Dyna glo teilwng i encil bendithiol iawn.

Beth am ymuno â ni yn Eglwys Unedig Rhos-y-gad, Llanfair-pwll, ar 12 Hydref yn Encil yr Hydref i brofi presenoldeb yr Arglwydd? Cewch eich atgyfnerthu.

*Nesta Davies*

# A Rocha yn ymweld â Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro

Prynhawn Mercher, 17 Ebrill, croesawyd Mrs Delyth Higgins, Swyddog Cymru Eco Church A Rocha, i annerch aelodau Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro yng Nghapel Bwlchgwynt, Tregaron.



Cyflwynwyd Delyth gan Rhys Bebb Jones, Hyrwyddwr Polisi Amgylcheddol yr Henaduriaeth. Mae hi'n byw yn Abertawe gyda'i theulu ac yn aelod ac yn organydd yng Nghapel y Bedyddwyr, Treforys. Ers mis Ebrill 2022, mae'n gweithio i A Rocha, sef yr elusen Gristnogol sy'n hyrwyddo ac yn gweithio er mwyn gwarchod ac adfer y byd naturiol.

Roedd dros ugain yn bresennol ar gyfer ei chyflwyniad i waith A Rocha sydd wedi ymrwymo i gefnogi Cristnogion a chapeli ac eglwysi yng ngwledydd Prydain sydd am ofalu am yr amgylchedd, am fyd natur ac am y greadigaeth. Cyfeiriodd at rai o warchodfeydd A Rocha, megis Gwarchodfa Natur Foxearth Meadows, Essex, Lloegr, sy'n eiddo i'r elusen ers 2015. Mae nifer o gynefinoedd o fewn 11 erw'r safle, gan gynnwys glannau afon Stour, gwlyptiroedd a choetir. Mae'n gynefin i amrywiaeth eang o fywyd gwyllt, er enghraifft gwas y neidr, dyfrgwn, glas y dorlan, y fadfall gyffredin a'r llyffant cyffredin.

Clywsom wedyn am rai o gynlluniau presennol A Rocha.

**Partners in Action**: Dyma'r rhwydwaith sy'n cefnogi eu partneriaid yng Nghymru a Lloegr, yn gapeli ac eglwysi, grwpiau cymunedol, ysgolion a ffermydd. Mae'r partneriaid yn gweithio gydag A Rocha a'i gilydd mewn ffyrdd ymarferol i wella bioamrywiaeth eu tir, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a rhannu eu profiadau drwy gyfres o raglenni addysg amgylcheddol: <https://arocha.org.uk/partners-in-action>

**Wild Christian**: Dyma'r cynllun lle mae'r gymuned Gristnogol yn cydnabod eu cyfrifoldeb yn gofalu am y greadigaeth yn rhan annatod o'u cenhadaeth. Daw unigolion a theuluoedd at ei gilydd i fwynhau a dysgu am fyd natur a sut gellir ei warchod trwy weithredu'n ymarferol gartref ac yn y gymuned: https://arocha.org.uk/wildchristian

**Eco Church**: Dyma gynllun gwobrau A Rocha yng Nghymru a Lloegr sy'n darparu fframwaith i gefnogi capeli ac eglwysi i gymryd y camau ymarferol i ofalu am y greadigaeth. Mae'n cynnig arolwg ar-lein ac adnoddau sydd o gymorth i gwblhau'r arolwg i ymgeisio am wobrau Efydd, Arian neu Aur Eco Church: https://ecochurch.arocha.org.uk

Eglurodd y bydd y dystiolaeth a gyflwynir gan gapel ac eglwys mewn pum categori yn casglu pwyntiau iddynt tuag at ennill gwobr. Y pum categori allweddol o fywyd eglwysig sydd yn yr arolwg yw: • Addoli ac Addysgu • Adeiladau • Tir • Ymgysylltiad cymunedol a byd-eang • Ffordd o fyw.

Y mwyaf a gyflawnir, y mwyaf fydd nifer y pwyntiau a gesglir. Os na fydd sgôr yn ennill gwobr ar unwaith, ni ddylai capel nac eglwys boeni a rhoi'r gorau iddi! Pwysleisiodd mai gweledigaeth A Rocha yw bod capeli ac eglwysi o bob enwad yn gofalu am y greadigaeth fel rhan annatod o'u gwaith yn enw'r Arglwydd. Cyfeiriodd at rai addoldai sydd eisoes wedi derbyn gwobr, er enghraifft Capel Ewloe Green, yr Wyddgrug, a dderbyniodd Wobr Efydd yn 2020. Derbyniodd Esgobaeth Llanelwy (Yr Eglwys yng Nghymru) ac Eglwys Libanus, Aberhonddu, hefyd wobrau Efydd yn 2022. Cyfeiriodd at gamp Eglwys Beulah, Caerdydd, fel yr eglwys gyntaf yng Nghymru i ddadfuddosddi o danwydd ffosil yn 2019.

Cyflwynodd rai ystadegau yn brawf o ddifrifoldeb sefyllfa'r blaned:

- bod poblogaeth y byd yn cynhyrchu 381 miliwn tunnell o wastraff plastig yn flynyddol; bydd y cyfanswm yma'n debygol o fod wedi dyblu erbyn 2034;

- bod 8 miliwn darn o lygredd plastig yn cyrraedd moroedd y byd yn ddyddiol;

- bod 10,000 tunnell o ddillad ar draws y byd yn cyrraedd safleoedd tirlenwi bob pum munud;

- bod 6.7 miliwn tunnell o fwyd yn cael ei wastraffu'n flynyddol yng ngwledydd Prydain, sy'n cyfateb i £10.2 biliwn yn cael ei wastraffu mewn arian!

Atgoffwyd y gynulleidfa o'r hyn y gallent ei wneud – yn unigolion ac yn deuluoedd, yn gynulleidfa capel ac eglwys, yn Henaduriaeth ac yn genedlaethol. Er enghraifft, gellid prynu nwyddau glanhau nad ydynt yn cynnwys cemegau gwenwynig sy'n niweidiol i'r ddynoliaeth ac i fyd natur. Gellir prynu nwyddau ymolchi fel sebon a siampŵ nad ydynt wedi eu pacio mewn plastig nac yn cynnwys cemegau all achosi niwed i'r amgylchedd. Hefyd, mae'n bosib ailenwi potel wag â siampŵ! A beth am ein cynilion ariannol mewn banciau neu wedi eu buddsoddi mewn cwmnïau cenedlaethol a rhyngwladol? Gellir rhoi pwysau arnynt i ddod yn fwy moesol a 'gwyrdd' drwy ddewis symud ein cynilion at gwmnïau sy'n arddel y gwerthoedd hynny'n barod.

Diolchodd Dr Rhidian Griffiths, Llywydd yr Henaduriaeth, iddi am ei chyflwyniad a chyflwynodd rodd tuag at waith elusen A Rocha. Dywedodd Delyth ei bod yn barod i ymweld â phob Henaduriaeth i roi cyflwyniad tebyg naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Os oes diddordeb mewn derbyn ymweliad a chyflwyniad ganddi, ei chyfeiriad e-bost yw delyth.higgins@arocha.org neu mae croeso i chi gysylltu â mi: rhys.jones@ebcpcw.cymru

*Rhys Bebb Jones*

# Tearfund Cymru – diwedd cyfnod






Mae'n ddiwedd cyfnod ar yr elusen ddyngarol Gristnogol Tearfund yng Nghymru. Eleni, am y tro cyntaf ers 1987, ni fydd ganddynt weithiwr yn hyrwyddo'u cenhadaeth yn ein gwlad. Dyma'u heglurhad:

'Mae cefnogwyr Tearfund yn eithriadol o hael, ac yn ein blwyddyn ariannol lawn ddiwethaf, fe wnaethon ni godi'r swm mwyaf erioed o arian, yn enwedig cyllid cyfyngedig yn dilyn apêl yn sgil argyfyngau arbennig. Yr un pryd, fe godwyd llai na'r disgwyl o incwm anghyfyngedig, ac ar sail yr hyn a welwn ar draws y sector, mae'n debygol y bydd y duedd hon yn parhau. Mae'r newidiadau yn y ffordd y mae ein cefnogwyr yn cyfrannu, yn ogystal â chynnydd sylweddol mewn costau gweithredu yn fyd-eang yn sgil chwyddiant, yn golygu bod yn rhaid inni wneud rhai dewisiadau anodd. Felly, mae Tearfund yn ailstrwythuro rhai rhannau o'r mudiad er mwyn lleihau ein gwariant. Yn rhan o hyn, yn anffodus ni fydd gennym bellach aelod penodol o'r staff i oruchwylio'r gwaith o godi arian yng Nghymru. Er hynny, byddwn yn sicrhau y bydd ein cefnogwyr a'r eglwysi yng Nghymru yn derbyn yr un gofal ag a gawson nhw yn y gorffennol.'

Fel un fu'n Cadeirio Tearfund Cymru (1995–2002) ac yn Gyfarwyddwr (2002–17), rwyf yn mawr obeithio y bydd y rhai sy'n dymuno hynny'n parhau i gefnogi Tearfund er gwaethaf y penderfyniad trist uchod.



Rwyf hefyd eisiau nodi fy ngwerthfawrogiad i Tearfund am weld yn dda i apwyntio Dewi Arwel Hughes ac yna Siôn Meredith i arwain y gwaith yng Nghymru rhwng 1987 a 2006, ac yna Miriam Evans, Fiona Michael, ac yn ddiweddar Cynan Llwyd i hyrwyddo'r gwaith ar draws ein gwlad.

Mae fy nyled bersonol i Tearfund yn fawr iawn. Ar adeg allweddol ac ansefydlog yn fy hanes, pryd yr oeddwn yn teimlo bod elfennau o'r byd Efengylaidd yng Nghymru yn llym yn erbyn gweithredu cymdeithasol a dangos tynerwch Crist, cefais gymuned a chefnogaeth gan unigolion megis Dewi, Siôn, ac Elfed Godding yng Nghymru. A hefyd Graham Fairbairn, Andrew McCracken a Tim Magawon ar staff Tearfund yn Teddington.

Roedd Graham Fairbairn, sef cyn Ddirprwy Gyfarwyddwr Tearfund, yn allweddol yn sicrhau bod presenoldeb cadarn gan Tearfund yng Nghymru.

Siôn Meredith oedd fy rheolwr llinell cyntaf, a dywed fy ngwraig, Carys, iddo feithrin 'cydwybod' ynof ynglŷn â chyflawni targedau penodol. Roedd ei gywirdeb, ei afiaith a'i sirioldeb bob tro'n donic imi.

Dysgais lawer gan Andrew McCracken ynglŷn â meddwl yn strategol ac effeithiol. Fe'm dysgodd hefyd i ddiffinio'r cwestiwn cywir i'w ofyn i gynllunio ymlaen. Yn aml, ar fyrddau cenedlaethol, rwyf wedi ceisio dilyn ei esiampl drwy ofyn y cwestiwn cywir yn ei bryd i gyfarwyddwyr gwahanol. Dwi'n cofio un cyfarwyddwr ar Gyngor Chwaraeon yn protestio wrthyf, 'It's unfair, Hywel. You disarm us with your smile, then you open us up with your penetrating questions!'

Yna bu Tim Magawon yn rheolwr llinell arbennig imi. Y noson gyntaf wnes i rannu stafell gyda Tim fe ddywedais wrtho y byddai ef yn ddewis cyntaf gennyf i fod yn rheolwr llinell arnaf. A diolch byth, felly y bu am sawl blwyddyn. Roedd hynawsedd, cefnogaeth ac arweiniad Tim yn allweddol iawn imi fel Cyfarwyddwr Tearfund Cymru. Yn fewnol, gyda Dewi ceisiais atgoffa Tearfund o'u nodweddion efengylaidd drwy eu holl weithgarwch.

Roedd hi'n fraint cael cefnogaeth Pwyllgor Tearfund Cymru, a chydweithio â dwy arbennig iawn oedd bob amser yn hyfryd i fod yn eu cwmni, sef Miriam Evans a Fiona Michael. Cyfoeth mwyaf Tearfund oedd gweithlu talentog iawn wedi ei eneinio gan yr Ysbryd Glân, gydag ymrwymiad manwl i gynorthwyo tlodion i godi ar eu traed.

Yn ystod fy nghyfnod gyda Miriam a Fiona, yn adeiladu ar waith gwych Dewi a Siôn, roedd cefnogaeth hael o £1 miliwn yn flynyddol gan unigolion ac eglwysi yng Nghymru i'r tlawd drwy Tearfund, gyda thîm gwych o wirfoddolwyr yn hyrwyddo'r apeliadau cyson ac amserol.

Cefais y fraint o ymweld â sawl gwlad gyda Tearfund, megis Rwanda, Uganda a Nepal, a chlywed cymaint oedd yn gwerthfawrogi'r nawdd a'r gefnogaeth. Yr hyn oedd fwyaf trawiadol oedd cynlluniau Tearfund i gynorthwyo'r tlawd i sefyll ar eu traed a pheidio â dibynnu ar gardod. Dyma'r math o waith sydd mewn peryg os ydym ddim ond yn ymateb i argyfyngau, heb gefnogi cynlluniau i feithrin sgiliau a hyder unigolion i oresgyn tlodi.

*Hywel Meredydd Davies*

# Rhyfel Gaza – ydyn ni ar fai?



Mae'n anodd credu ein bod mor ddiffrwyth yn wyneb trychineb ac anfadwaith Gaza. A fedrwn ni ddim esgus nad oes gennym ran yn y gyflafan, oherwydd mae pob un ohonom sy'n talu treth i wladwriaeth Prydain yn cyfrannu at ddarparu cyfran o'r bomiau sy'n disgyn ar drueiniaid Gaza. Ac mae hynny'n ein gwneud ni yn fwy na rhannol gyfrifol.

Ond, wrth gwrs, y mae yna filoedd allan ar y strydoedd, yma yng ngwledydd Prydain ac ar draws y byd, yn protestio ac yn galw am gadoediad. Ond ydy hynny'n cael effaith o gwbwl ar arweinwyr y Gorllewin? Fawr ddim! Ryden ni'n ôl yn yr un sefyllfa ag yr oedden ni cyn rhyfel Irac – pan ddaeth y miliynau allan ar strydoedd Llundain i ofyn i Blair beidio ymuno yn y rhyfel diangen hwnnw. Ond wnaeth neb wrando. Lladdwyd y miloedd diniwed, ac y mae Irac heddiw mewn cyflwr gwaeth, os rhywbeth, nag oedd hi cynt.

Ateb y Gorllewin y tro hwn yw arllwys biliynau yn rhagor i bydew y fasnach arfau, ac anfon mwy nag erioed i Wcráin, i Israel ac i fannau eraill lle mae 'democratiaeth' mewn peryg. Ond does fawr ddim sôn am gael pobol at ei gilydd i chwilio am gytundeb, fawr ddim ymdrech i ganfod rhyw ffordd i osgoi mwy fyth o ladd a distryw. Mae gwir angen gofyn pwy sy'n ennill o'r bomio di-dor yn Wcráin a Gaza: oes rhywun wir yn medru ennill? Oes pwrpas i Rwsia chwalu'r union diriogaeth y mae hi'n honni ei choleddu? Oes unrhyw reswm o gwbwl i Israel ddinistrio Gaza gyfan a chreu miliynau o ffoaduriaid digartref? Does neb yn ennill, a does dim rheswm na rhesymeg i'r hyn sy'n digwydd yn ein henw ni.

Roedd ateb Paul yn ei lythyr at yr Effesiaid yn glir. Mae'n frwydr hir iawn yn erbyn y pwerau sy'n credu mai rhyfel yw'r ateb. Ganddyn nhw y mae'r adnoddau, yr arian a'r grym, a wnân nhw ddim ildio ar chwarae bach. Rhyfela yw eu natur. A'i gyngor i'r Effesiaid oedd eu hatgoffa o'r hyn na ŵyr gwleidyddion ein dyddiau ni ei ystyr – sef mai brwydr ysbrydol yw brwydr y Cristion yn erbyn y rhyfelgwn. Dadl ysbrydol yw ein dadl ni, Gristnogion ffaeledig, yn erbyn diwylliant rhyfel. 'Gan hynny,' meddai Paul, 'ymarfogwch â holl arfogaeth Duw, er mwyn ichi fedru sefyll yn y dydd drwg … a gwirionedd yn wregys am eich canol, a chyfiawnder yn arfwisg ar eich dwyfron, a pharodrwydd i gyhoeddi Efengyl tangnefedd yn esgidiau am eich traed …ymarfogwch â tharian ffydd … derbyniwch iachawdwriaeth yn helmed, a'r Ysbryd, sef gair Duw, yn gleddyf yn eich llaw.'

Wrth i'r ddwy blaid fawr ym Mhrydain gystadlu â'i gilydd i weld pwy all addo gwario fwyaf ar arfau rhyfel, rhaid i ni, Gristnogion, godi ein llais a dweud yn glir nad dyma'r ffordd i greu byd o heddwch. Nid dyma'r ffordd i ddod â chenhedloedd y ddaear at ei gilydd mewn cytgord. Os ydym yn mynd i barhau ar ras wyllt i weld pwy all greu'r mwyaf o arfau, byddwn yn cyfrannu at y momentwm gwallgo nad oes iddo ond un canlyniad – sef rhyfel a all ddinistrio'r ddynoliaeth gyfan. Ond mae gwerin bobloedd y byd yn dyheu am yr un peth – sef yr hawl i fyw mewn rhyddid a heddwch a diogelwch. Ein dyletswydd ni fel dilynwyr Iesu yw dweud mai hon yw'r frwydr ysbrydol a moesol y mae'n rhaid i ni ei hymladd. Cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

Roedd Waldo Williams, y Cristion o Grynwr, a'r cenedlaetholwr o heddychwr, yn credu yn 'rhwydwaith dirgel Duw, / sy'n clymu pob dyn byw'. Roedd Victor Jara, y cyfansoddwr a'r comiwnydd o Chile a laddwyd gan Pinochet hanner can mlynedd yn ôl i'r llynedd, yntau'n credu yn y 'gadwyn' sy'n clymu'r ddynoliaeth ynghyd. Fel y dywed yn ei gerdd 'El derecho de vivir en paz':

> Hon yw cân y byd yn grwn –
> y gadwyn sy'n ennill y dydd,
> a'r hawl i bobol fyw mewn heddwch.

*Dafydd Iwan*

(Addasiad o e-fwletin Cristnogaeth21, 5 Mai 2024)

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




### Pennod 26
**Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr – Nepal**

**Darlleniad: Actau 16: 6–10**
'Tyrd drosodd i Facedonia, a chymorth ni.' (adnod 9)

**Gweddi**
Ymostyngwn yn dy gwmni, ymdawelwn ger dy fron,
Dyro inni glywed d'eiriau fydd yn llenwi'r funud hon;
Boed i'n horiau a'n holl ddyddiau brofi hedd wrth nofio'r don. Amen.

**Cyflwyniad**
Bydd yr adran a ddarllenwyd gennym yn cael ei hadnabod fel y bont a groesodd o Asia i Ewrop. Roedd Paul a Silas wedi ymweld â'r egwysi a sefydlwyd ar y daith genhadol gyntaf, ac yna roedd yr Ysbryd Glân wedi eu harwain i fynd tua'r gorllewin. Dyna oedd argyhoeddiad Paul, ac yna cafodd brofiad rhyfeddol o deimlo Duw yn ei arwain i fynd i Facedonia a chyflawni gwaith Duw yno. Pa mor aml y byddwn yn ymwybodol o anogaeth Duw yn cynnig arweiniad i ni, yn bersonol ac fel eglwysi? Breuddwyd gafodd Paul, ond gweledigaeth gafodd Pedr yn Actau 10. Daw llais Duw atom mewn gwahanol ffurfiau, ond byddwn yn gwybod mai ufuddhau sydd raid.

Bydd llawer yn gyfarwydd â'r dweud bod gweinidog yn cael ei alw i'r weinidogaeth, a defnyddir yr un term wrth sôn am wahoddiad eglwys neu ofalaeth i weinidog fod yn arweinydd iddynt. Gall yr un ddelwedd gael ei defnyddio ar gyfer sawl cyfrifoldeb arall oddi mewn i'r eglwys neu hyd yn oed oddi allan iddi.

**Myfyrdod**
Byddwn yn ymwybodol o waith 'cenhadon' a bod y bobl sy'n eu cynnig eu hunain i dderbyn hyfforddiant yn ymwybodol o law Duw yn eu cyfeirio. Mae Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr yn defnyddio'r term 'gweithwyr' yn hytrach na 'chenhadon' ers sawl blwyddyn bellach, gan fod natur y gwaith yn wahanol. Yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd y cenhadon yn mynd allan i ddysgu'r iaith frodorol ac yna i bregethu a cheisio sefydlu cynulleidfaoedd ac eglwysi.

Yn ddiweddarach, byddai athrawon yn teimlo'r alwad ac yn mynd i weithio mewn ysgolion, ymaelodi yn yr eglwys leol, ac yn cynnig arweiniad a chefnogaeth i'r eglwys honno. Yn yr un modd, byddai meddygon a nyrsys yn cael eu cymell i wasanaethu. Bu gan y Presbyteriaid yng Nghymru brofiadau cyfoethog gyda rhannau o India; bydd yr Annibynwyr yn hoffi sôn am hanesion trist neu gyffrous yn Madagasgar, a'r Bedyddwyr yn hapus i sôn am Timothy Richard yn China.

Erbyn hyn, mae gan y 'gweithwyr' amrywiaeth o ddoniau eraill, a than yn ddiweddar bu'r Tabernacl yng Nghaerdydd gyswllt gwerthfawr â theulu Helen ac Angus Douglas oedd yn gweithio yn Kathmandu. Eu gwaith oedd cefnogi'r eglwysi, heb fod yn weinidogion yn ystyr arferol y gair. Ceir enghreifftiau tebyg ym mhob eglwys ac enwad.

Arferid meddwl am y genhadaeth fel gwasanaeth oes, ond nawr gall y gweithwyr roi tymor byrrach o wasanaeth, weithiau ar ôl ymddeol yn gynnar. Bu llawer o Gymry'n gweithio dramor, a hynny o bob math o gefndiroedd yn cynrychioli sawl enwad. Tybed faint o bobl o Gymru sydd heddiw'n barod i ddefnyddio ychydig flynyddoedd i fynd dramor i gynorthwyo eglwysi yno? Byddai'r profiad o dreulio chwe mis dramor yn cefnogi tystiolaeth eglwysi byrlymus yn ein trawsnewid ninnau hefyd. Beth amdani?

**Gweddi**
Diolch, Arglwydd, dy fod wedi galw pobl ar draws y cenedlaethau a'r cyfandiroedd i fod yn dystion ac yn arweinwyr yn dy enw di. Ni allwn ddychmygu profiadau'r bobl hyn, ond credwn iddynt ymateb yn ddidwyll i'th anogaeth a'th arweiniad. Galw bobl o'r newydd i gynnig arweiniad i'th eglwysi – ac os mai dyna fyddo dy bwrpas, Arglwydd, galw ni. Amen.

**Cwestiynau i'w hystyried**
1. Pa wedd o hanes Philip a'r eunuch sydd fwyaf diddorol, yn eich tyb chi?
2. Ydych chi'n adnabod pobl sy'n awyddus i wybod mwy am hanfodion Cristnogaeth?
3. A yw 'sôn am Iesu' yn dod yn naturiol i ni?
4. Nodir bod Philip wedi mynd ar unwaith. Tybed fyddem ni'n chwilio am esgus i beidio mynd?
5. Beth yw ein syniad ni o waith cenhadol dramor heddiw?

S4C
***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 26 Mai, am 7.30yh**
**Afon Tywi**
Ymunwch â Rhodri Gomer wrth iddo ddilyn taith ysbrydol o'r mynydd i'r môr drwy dirlun cyfareddol dyffryn Tywi. Ymhlith ei westeion y bydd esgob newydd Tyddewi, Dorrien Davies. Ac fe gawn ni wledd o emynau gan rai o fawrion y fro, yn cynnwys Williams Pantycelyn.

BBC radio cymru
***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 26 Mai, am 7:30yb a 12yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Rhun ap Robert

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 26 Mai, am 4.30yp**
Oedfa Eisteddfod yr Urdd dan ofal Euron Hughes

## Cysegru esgob ieuengaf erioed yr Eglwys yng Nghymru

Roedd yr wythnos diwethaf yn un hanesyddol i'r Eglwys yng Nghymru wrth i'r person ieuengaf erioed gael ei osod a'i gysegru'n esgob o fewn yr Eglwys. Mewn gwasanaeth arbennig yng Nghadeirlan Bangor ar 11 Mai cafodd David Morris, a ddathlodd ei ben-blwydd yn 38 oed ddechrau mis Mai, ei eneinio a derbyn symbolau swydd esgob. Roedd hyn yn dilyn ei benodi ym mis Ionawr yn Esgob Cynorthwyol yn Esgobaeth Bangor. Bydd David hefyd yn derbyn y teitl Esgob Enlli. Dymunwn yn dda iddo yn ei alwedigaeth newydd.





Ydych chi'n gwybod am berson ifanc sydd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yn eich ysgol neu'ch cymuned chi neu sydd wedi ysbrydoli eraill?

8fed Seremoni Wobrwyo Heddychwyr Ifanc flynyddol yn Eisteddfod Llangollen ar Ddydd Lau 4 Gorffennaf 2024 am 1pm (Medrwn gyfrannu at gostau teithio i fynychu'r seremoni)

**Y DYDDIAD CAU AR GYFER CEISIADAU ELENI YW 31 MAI 2024**

# 2024
# GWOBRAU HEDDYCHWYR IFANC

Gall pobl ifanc unigol neu grwpiau (rhwng 5 a 25 bl. oed) gyflwyno ceisiadau o dan y categorïau canlynol, neu gallwch ddewis i enwebu rhywun hefyd!

- **Adeiladwr Heddwch Cymunedol Ifanc**
- **Awdur/Awduron Heddwch Ifanc y Flwyddyn**
- **Artist/Artistiaid Heddwch Ifanc y Flwyddyn**
- **Arwr Gweithredu Hinsawdd Ifanc**
- **Hyrwyddwr Iechyd Meddwl Ifanc**
- **Treftadaeth Heddwch - Pobl Ifanc**

**CAIFF ENILLWYR WOBR ARIANNOL O £25 A £25 I'W ROI I ELUSEN O'U DEWIS!**

**GWNEUD CAIS AR EIN GWEFAN**

WCIA
WELSH CENTRE FOR INTERNATIONAL AFFAIRS
CANOLFAN MATERION RHYNGWLADOL CYMRU

Academi Heddwch Cymru

# Mesur Diogelwch Rwanda

Y mae llawer ohonom fel Cristnogion yn anhapus iawn gydag agwedd Llywodraeth San Steffan tuag at ymgeiswyr lloches. Fe ymddengys bod y llywodraeth bresennol yn barod i drin y bobl druan hyn yn annynol er mwyn ceisio plesio canran o'u cefnogwyr. Rhoddant yr argraff fod y bobl sy'n croesi'r Môr Udd ar y cychod bychan yn gyfrifol am gyflwr enbydus economi gwledydd Prydain ar hyn o bryd a'u bod yn bobl ddrwg. Dylent yn hytrach gywilyddio eu bod yn caniatáu i bobl a phlant foddi yn hytrach nag estyn cymorth ac ymgeledd iddynt.

Yn ddiweddar mae Archesgobion Caergaint a Chaerefrog wedi ymuno gydag Esgob Southwark ac arweinwyr eglwysi eraill i fynegi eu 'hamheuon mawr' ynghylch Mesur Diogelwch Rwanda, a basiwyd yn y Senedd nos Lun, 22 Ebrill, yn dilyn wythnosau o drafod ac anghytuno. Yn sgil y ddeddfwriaeth hon bydd rhai ceiswyr lloches yn cael eu halltudio i Rwanda, Affrica, o fewn ychydig wythnosau er mwyn prosesu eu cais am loches. Ond fel rhan o'r ddeddfwriaeth hon y mae Llywodraeth Prydain yn deddfu bod Rwanda yn wlad ddiogel i anfon ymgeiswyr iddi. Mae hyn yn ateb hwylus iawn iddynt hwy. Ond y gwir yw nad yw Rwanda'n wlad sefydlog gan nad yw'n parchu na gweithredu hawliau dynol sylfaenol bob amser.

**Datganiad**
Mewn datganiad ar y cyd, fe fynegodd arweinwyr Eglwys Loegr, yr Eglwysi Catholig, Methodistaidd, Bedyddiedig a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig eu pryderon am y pardduo bwriadol sy'n digwydd o bobl sy'n ffoi rhag rhyfel, erledigaeth a thrais. Dywedwyd yn y datganiad:

Rydym yn nodi gyda thristwch a phryder yr atgasedd cynyddol sydd tuag at y rhai sy'n dod i geisio lloches yn ynysoedd Prydain a'r modd y maent yn cael eu defnyddio er mwyn gwneud pwyntiau gwleidyddol.

Gwyddom fod y sefyllfa hon yn un anodd ei datrys ar fyrder ond ein cyfrifoldeb ni fel Cristnogion yw annog ein harweinyddion i ddelio gyda hyn mewn ffordd gyfiawn, lle mae'r anghenus yn cael gofal a diogelwch. Nid ein gelynion yw'r ymgeiswyr lloches ond brodyr a chwiorydd a grëwyd ar lun a delw Duw.










Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru